

Is-grŵp Adfer ar ôl Covid y TSPC

Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020

13:00 – 14:00

Cadeirydd – Claire Bennett

Mynychwyr:

Patience Bentu – Race Council Cymru

Catrin James - Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

Carl Cooper – Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Sirol Powys

Anna Nicholl - CGGC

Ben Lloyd – CGGC

John Rose – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Swyddogion:

Chris Buchan

Aaron Fortt

Jenna Pugh

Elizabeth Hawkin

Paul Dear

Nodiadau a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Pawb yn cytuno bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn nodyn cywir.

Sylwadau ar Gynigion Drafft y Ffrwd Waith “Cydberthnasau”.

- Nodwch y “prif sectorau” yn eglur
- Sicrhewch fod strwythurau “rhanbarthol” yn cael eu cynnwys -
- Sicrhewch ein bod yn cael trafodaeth â rhwydwaith gwirfoddoli Cymru
- Nodir nad oes llawer o drafod wedi bod ynghylch yr *Adolygiad o Bartneriaethau Strategol*.
- Un enghraifft bosibl o hyn fyddai'r argymhellion sydd i ddod ar y strategaeth gwaith ieuenctid a sut mae'r sector ieuenctid yn gysylltiedig â'r rhain.
- Gofynnwch am argymhellion gan CLILC i weld pa gydberthnasau sy'n dda ac yn wael.
- Mae'r sector o'r farn bod cyd-bwyllgorau corfforedig (CJCs) yn gam yn ôl o ran cael ei gynnwys.
- Dylid defnyddio model ar gyfer 'gwlad sy'n galluogi'.

Trafodaeth ganolbwyntiedig ar y Ffrwd Waith “Cymorth” yn erbyn y prif themâu, gan ofyn:

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl wedyn ar y ffrwd waith “Cymorth” o ran y prif faterion, gofynion a chyfleoedd. Nodwyd yr holl sylwadau – dyma grynodedb o'r prif bwyntiau a godwyd:

- **Beth yw'r materion/gofynion/cyfleoedd?**

Llywodraethu

- Yn aml, pan mae angen cymorth ar fudiadau, nid y mater a 'gyflwynir' yw'r broblem sylfaenol. Mewn llawer o achosion, mae'r broblem yn ymwneud â llywodraethu. Yn aml, Cymorth holistaidd sy'n gweithio orau ar gyfer gwydnwch hirdymor mudiadau.
- Mae diogelu'n rhan greiddiol o lywodraethu ac, yn aml, mae rhai mudiadau llai o faint yn cael anhawster yn y maes hwn. Gall hyn fod yn wir hefyd am fudiadau sy'n gweithio y tu allan i feysydd lle yr ystyriwyd yn draddodiadol bod diogelu'n berthnasol na allai o bosibl fod yn ymwybodol bod angen iddynt ymhel â diogelu.
- Gall mudiad fod yn chwilio am wahanol sgiliau yn ei ymddiriedolwyr ar wahanol adegau, er enghraifft, bod angen gwahanol sgiliau yn ystod cyfnod o dwf neu newid neu adferiad yn y mudiad.

Cyllid

- Byddai'n ddefnyddiol bwydo cyllid grant mwy hirdymor y sector gwirfoddol, ynghyd â lleihau'r angen am gystadleuaeth, i mewn i drafodaethau o fewn Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn arwain at sefydlogrwydd a chydberthnasau mwy hirdymor.
- Mewn perthynas â hyn, byddai cytundebau cyllido dros nifer o flynyddoedd yn ddefnyddiol.
- Mae cyllid yn bwysig, ac weithiau, gall fod yn anodd i'r sector statudol weld y tu hwnt i gyllid fel ffynhonnell o gymorth.
- Nid yw'r rhan fwyaf o fudiadau'r sector gwirfoddol yn derbyn unrhyw arian o'r pwrs cyhoeddus.
- Croesawyd y cyllid brys gan LIC.
- Mae ffocws wedi'i roi ar gaffael yn ddiweddar, a gallai hyn barhau ar ôl i'r broses o ymadael â'r UE gael ei chwblhau.
- Bydd rhai mudiadau'n ei chael hi'n anodd parhau, gan gynnwys y rheini nad ydynt wedi cael problemau o'r blaen. Mae hyn yn cynnwys y risg o gael barn amodol ar gafrifon, sut gallwn ymdrin â mudiadau sydd wedi cael hyn?

- Ffrydiau cyllido a chefnogi'r gronfa cyfoeth cymunedol, o ble mae'r gwahanol gronfeydd ariannol yn dod?
- Mae'r sefyllfa gyllido'n fregus yng Nghymru a'r cyfleoedd cyllido'n gyfyngedig (a llai fyth o rai sy'n benodol i Gymru). Dylem ystyried cyfleoedd i wella hyn yn y tymor byr.
- Mae Fforwm Cyllidwyr Cymru wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae cyllidwyr wedi bod yn hyblyg yn ystod y cyfnod hwn, a byddai'n ddefnyddiol gwybod os neu sut bydd hyn yn parhau – er enghraifft, beth yw'r cyfiawnhad dros fynd yn ôl.

Llunio polisi

- Mae pryder na fydd rhai grwpiau cymunedol lleol, sy'n fach ac, yn aml, heb strwythur llywodraethu ffurfiol, yn gallu cymryd rhan mewn rhaglenni presgripsiynu cymdeithasol/ynysu, er enghraifft, am nad ydynt yn gallu 'chwarae'r gêm,' – h.y. ymdrin â'r gwaith atgyfeirio a monitro a fyddai'n dod law yn llaw â hyn. Dylid cael trafodaeth ynghylch sut i leihau hyn.

Materion eraill

- Gallai data a gwybodaeth well am gymorth sector gwirfoddol yng Nghymru arwain at bartneriaethau gwell, oherwydd bydd mudiadau yn y sector gwirfoddol yn ymwybodol o waith pobl eraill.
- Mae'r prif faterion eraill sydd eu hangen i gynnal y sector gwirfoddol yn cynnwys TG a chymorth cyfreithiol. Mae'r un gyntaf yn tanategu popeth a gall yr ail fod heb ei gynllunio ac yn gymhleth. Mae pryder ariannol yn bryder hefyd, ac yn gysylltiedig â chynllunio hirdymor.
- Mae'r cysylltwyr cymunedol yn wasanaethau cymorth sydd wedi helpu i lenwi bylchau yn ystod yr argyfwng. Maen nhw wedi darparu cymorth hanfodol i'r rheini sydd ei angen.